Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Cyngor Gwynedd
# Grant Ailwefru

# Canllawiau Cyhoeddusrwydd

Rydych wedi derbyn grant o gronfa Grant Ailwefru Cyngor Gwynedd. Mae'r grantiau yma yn cael eu cyllido ar y cyd gan Cyngor Gwynedd, Yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear/Nuclear Restoration Services a Cronfa Ffyniant Cyffredin: Gwynedd.

Wrth dderbyn y grant, rydych wedi ymrwymo i gydnabod y gyllideb yma wrth weithredu'ch Prosiect. Mae'r ddogfen hon yn gosod allan sydd y bydd disgwyl i chi wneud hynny.

**Logos**

Rhaid i chi ddefnyddio'r stribed logos canlynol mewn pob deunydd cyfathrebu a dogfennau cyhoeddus sy'n ymwneud a'ch Prosiect:

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | NRS Nuclear Restoration Services | NDA | Busnes@ gwynedd.llyw.cymru | Cyngor Gwynedd

Mae hyn yn cynnwys, ond nid ydi'n gyfyngedig i:

- Hysbysebion, hysbysebion swydd a datganiadau i'r wasg
- Arwyddion a phlaciau
- Deunyddiau caffael, astudiaethau achos ac eitemau hyrwyddo
- Deunyddiau electronig e.e. troedyn e-bost, sleidiau cyflwyniad

Gallwch ychwanegu logo eich hun, cyn belled â'ch bod yn sicrhau bod pob logo o faint cyfartal, a bod yna bwlch cyfartal rhwng pob un.

**Deunyddiau digidol, gan gynnwys gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol**

Mi all sianeli digidol roi ffordd gyflym i ymgysylltu hefo cynulleidfaoedd a hyrwyddo'ch Prosiect. Lle rydych wedi cyhoeddi manylion eich Prosiect ar wefan, rhaid cynnwys cyfeiriad clir ac amlwg i'r cyllid gan Cyngor Gwynedd, Yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear/Nuclear Restoration Services a Cronfa Ffyniant Cyffredin:Gwynedd, fel a ganlyn:

**Ariennir y Prosiect hwn yn rhannol gan Lywodraeth y DU trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn rhannol gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear/Nuclear Restoration Services ac yn rhannol gan Cyngor Gwynedd**

Lle mae gwefan wedi'i chreu yn uniongyrchol gennych chi ar gyfer eich Prosiect, rhaid arddangos y stribed logos ar y tudalen blaen/cartref.

Os ydych yn rhoi manylion y Prosiect ar wefan sydd heb ei chreu yn uniongyrchol ar gyfer y Prosiect (e.e. eich gwefan arferol sydd yn cynnwys gweithgareddau ehangach), rhaid arddangos y stribed logos ar y tudalen sy'n cyfeirio at y Prosiect

Lle'n ymarferol, dylech hefyd cynnwys dolen i dudalen we Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus, gwefan cyllid socio-economaidd NDA, a Busnes@Gwynedd , a'r testun canlynol (dylid hefyd cael ei ddefnyddio ar gyfer nodiadau i'r golygydd):

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn biler canolog agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, ac yn darparu £2.6 biliwn o nawdd i fuddsoddiadau lleol erbyn Mawrth 2025. Mae'r gronfa yn anelu i gynyddu balchder fro, a chyfleoedd bywyd ar draws y DU, trwy fuddsoddi mewn cymunedau a lleoedd, cefnogi busnesau lleol a phobl a sgiliau. A wybodaeth pellach, ewch i https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus'

Wrth ddisgrifio neu hyrwyddo eich Prosiect ar y cyfryngau cymdeithasol megis Twitter, rhaid defnyddio'r hashnodau canlynol:

#UKSPF
#CyngorGwynedd
#Busnes@Gwynedd
#NDAGovUK
#NRServicesUK

Mi all eich postiadau cael eu rhannu gan Lywodraeth y DU, yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear/Nuclear Restoration Services a Cyngor Gwynedd i alluogi i eraill dilyn cynnydd eich Prosiect

**Y Wasg a'r Cyfryngau, yn cynnwys datganiadau i'r wasg a nodiadau i'r golygydd**
Gall defnydd o'r cyfryngau fod yn ffordd gost-effeithiol o hyrwyddo'ch Prosiect. Mae'r ymarfer da i ddatblygu datganiadau i'r wasg wrth lansio'ch Prosiect, ac wedyn i gyhoeddi cerrig milltir a chyflawniadau allweddol

Rhaid i ddatganiadau i'r wasg cynnwys cyfeiriad clir ac amlwg i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear/Nuclear Restoration Services a Cyngor Gwynedd o fewn corff y datganiad fel a ganlyn:

**'(Mae'r prosiect hwn/enw'r prosiect) wedi derbyn £(YCHWANEGWCH Y SWM) o Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear/Nuclear Restoration Services a gan Cyngor Gwynedd'**

Mae'n ofyniad hefyd i ddefnyddio'r geiriad sydd wedi'i osod allan yn adran Deunyddiau Digidol fel nodiadau i'r golygydd mewn pob gweithgaredd y cyfryngau

Gofynnir i chi ddiweddaru Tîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd o ran unrhyw gyfleoedd cyhoeddusrwydd i'r dyfodol

Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR
GWYNEDD